# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Medi 8fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Arwel Davies, Rhys Jones, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

Ymddiheuriadau: Huw Charles a Huw Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Gorffennaf 9fed 2026) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **cofnodwyd buddiant wrth y cais cynllunio isod.**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Gwynedd Ni – Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned a Thref – **cafwyd diweddariad gan y clerc o ddatblygiadau diweddaraf y prosiectau.**

<u>iv) Gohebiaeth</u>
<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Ymgynghoriad Rhwydwaith Teithio Llesol - cerdded, olwyno a beicio Gwynedd

<u>b Un Llais Cymru.</u>
i) Nodyn Datblygu Ymarfer 29: Rôl y Cadeirydd yn ystod Cyfarfodydd.
ii) Grant Llywodraeth Cymru.
iii) Cronfa Ynni Gwynedd Gwynedd – Cronfa Twf Lleol

<u>c) Amrywiol.</u>
i) Triathlon y Bala 2026 – 6/09/26.
ii) SCCH Iwan Roberts – gair o ddiolch.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>
NP5/72/252A – Adeiladu storfa amaethyddol. Ty'n y Sarn, Llidiardau **(Rhys Jones yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).**

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol ac felly cefnogwyd y cais.**

<u>vi) Materion Ariannol</u>
<u>a) Derbyniadau**.**</u>
Derbyniwyd ail randal y Praesept.

<u>b) Taliadau.</u>
**Cytunwyd i dalu** Cyngor Gwyned (archwiliad mewnol),

<u>c) Ceisiadau Ariannol.</u>
Derbyniwyd ceisiadau gan Radio Ysbyty Gwynedd a Cerebral Palsy Cymru - c**ytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ym mis Mawrth.**

<u>vii) Materion lleol.</u>
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH HYDREF 13EG YN NEUADD MAESYWAEN.**